

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

TÎM COMISIYNU (OEDOLION)

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

Enw'r Darparwr:	Care Management Group (CMG)
Enw a Chyfeiriad y Gwasanaeth:	Glencourt 54 Parc yr Allt Bargod CF81 8NL
Dyddiad yr Ymweliadau:	31 Mai, 10 Gorffennaf a 17 Gorffennaf 2019
Swyddog(ion) Ymweld:	Diane Davies, Comisiynu (CBSC)
Yn bresennol:	Fay Louise Harvey, Rheolwr Cofrestredig

1 Cefndir

Mae Glencourt yn dŷ ar wahân , mawr â phedair ystafell wely sydd wedi'i leoli mewn ardal breswyl dawel ym Margod. Mae gardd fawr o boptu iddo, ac ardal balmantog yn y cefn.

Mae Glencourt yn gartref preswyl i unigolion sydd ag Anableddau Dysgu y mae Care Management Group, sy'n ddarparwr cofrestredig ym mwrdeistref sirol Caerffili, yn berchen arno ac yn ei redeg.

Mae pedwar unigolyn yn preswyl yn yr eiddo ar hyn o bryd. Mae tri wedi'u hariannu gan Gyngor Caerffili ac mae un wedi'i ariannu gan awdurdod cyfagos.

Yn ystod yr ymweliadau, roedd y swyddog monitro yn gallu gweld nifer o ffeiliau, prosesau, gweithdrefnau a dogfennau, cyfarfod â rheolwr y tŷ, rhai aelodau o'r staff a'r preswylwyr.

Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, caiff y darparwr gamau unioni a datblygiadol i'w cwblhau. Camau unioni yw rhai y mae'n rhaid eu

cwblhau (yn unol â'r ddeddfwriaeth), ac mae camau datblygiadol yn argymhellion arfer da.

2 **Argymhellion Blaenorol**

2.1 Camau Unioni

Mae'n rhaid i'r rheolwr sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio ag unrhyw Aseidiadau Risg a Chynlluniau Gofal newydd neu wedi'u diweddarau yn amserol. (Cadw Cofnodion)

Wedi
cyflawni

2.2 Camau Datblygiadol

Mae'n rhaid cymryd gofal a rhoi ystyriaeth briodol wrth deipio/ysgrifennu gwybodaeth am unigolion er mwyn sicrhau bod y manylion personol yn gywir. (Cadw Cofnodion)

Wedi
cyflawni

3 **Canfyddiadau o'r Ymweliad**

Dogfennaeth

Caiff pob un o ffeiliau'r staff a'r preswylwyr eu storio'n ddiogel mewn cabinet dan glo yn swyddfa'r rheolwr. Edrychwyd ar bedair ffeil ac roedd pob un yn cynnwys mynegai a rhaniadau a oedd yn ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i'r ddogfennaeth angenrheidiol.

Roedd nifer o ffeiliau yn dal yr holl bolisiau a gweithdrefnau ac roedd y rhain wedi cael eu hadolygu yn 2018, gyda dyddiadau adolygu yn y dyfodol wedi'u nodi. Roedd yr holl ddogfennau ar gael i'r staff edrych arnynt.

Roedd yr holl ddogfennaeth wedi'i llunio'n glir ac roedd y proffil personol a'r proffil person coll yn cynnwys ffotograff cyfredol o'r preswylwr. Roedd y cynllun personol yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cwmpasu meysydd megis sgiliau hunanofal, cyfathrebu ac allan yn y gymuned ac ati. Roedd yn cynnwys cryn dipyn o wybodaeth a oedd yn rhoi trosolwg da o'r unigolyn a'i anghenion yn ystod y dydd a'r nos ynghyd â'i hoff a chas bethau.

Roedd y canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn hawdd ei ddefnyddio a'i ddarllen ac roedd mewn print mawr ac yn cynnwys lluniau ategol ac mae'n dangos bod CMG yn paratoi gwybodaeth mewn fformatau gwahanol yn ôl y gofyn.

Ar gyfer pob polisi a gweithdrefn a dogfen a welwyd roedd y ffeiliau yn

cynnwys taflenni darllen a llofnodi, wedi'u llofnodi gan y staff i gadarnhau eu cydnabyddiaeth.

Roedd llawer o asesiadau risg ar waith a oedd yn rhoi canllawiau i'r staff mewn meysydd megis yr ystafell ymolchi, y gymuned, meddyginiaeth, car, lliwio gwallt, tagu a'r defnydd o gadair olwyn ac ati ac roedd pob un o'r rhain yn gyfredol.

Roedd yr holl drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid hanesyddol a chyfredol yn eu lle, gyda cheisiadau newydd i'w gweld mewn ffeiliau.

Y Gofal a Ddarperir

Mae'r darparwr yn canolbwyntio ar ganlyniadau a bydd yn hyrwyddo annibyniaeth preswylwyr drwy roi cymorth gweithredol i annog unigolion i gyfranogi mewn cynifer o agweddau ar eu bywyd bob dydd ag sy'n bosibl.

Drwy gydol yr ymweliadau, arsylwyd ar y preswylwyr yn cael eu cefnogi gan aelodau o'r staff ac roedd yn bleser gweld preswylwyr unigol yn y gegin yn gwneud te. Gwelwyd nifer o ffotograffau o breswylwyr wrthi'n coginio ac yn pobi hefyd.

Drwy gydol pob ymweliad roedd y staff yn defnyddio dull a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn achos pob un o'r preswylwyr, gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol a oedd yn addas ar gyfer anghenion pob preswilydd, h.y. geiriol, arwyddion â llaw a chyfeirio at wrthrychau. Roedd yn amlwg bod y staff a'r preswylwyr yn gyfarwydd â'i gilydd ac yn gyfforddus yng nghwmni ei gilydd.

Mae Glencourt yn helpu'r preswylwyr a'u teuluoedd i gynnal eu cydberthnasau a chroesewir aelodau o'r teulu bob amser, a byddant yn ymweld â phreswylwyr yn rheolaidd.

Mae gan bob preswilydd gynllunydd ar ffurf lluniau (cynllunydd gweithgareddau) ar y wal sy'n rhoi gwybodaeth am weithgareddau a wneir bob wythnos, e.e. touch trust, sesiwn ganu, Bae Caerdydd, cerdded, bwyta allan, bore coffi, gwibdeithiau i'r arfordir ac ati. Gwelwyd tystiolaeth o weithgareddau celf a chreffft yn un o'r ystafelloedd hefyd a llawer o ffotograffau yn dangos gweithgareddau megis sesiwn faldodi, pobi ac ati.

Gwelwyd tystiolaeth bod gwyliau yn Cheddar Gorge wedi cael eu trefnu i un o'r preswylwyr a bod penwythnos o faldodi yn cael ei gynllunio ar gyfer preswlydd arall.

Iechyd a Diogelwch Tân

Roedd gan bob preswlydd ffeil iechyd unigol a oedd yn cynnwys cynllun gweithredu iechyd, proffil meddyginiaeth, protocol PRN, taflen Cofnod Rhoi Meddyginiaeth, pasbort ysbyty ac ati, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am iechyd, dulliau cyfathrebu, deiet, cofnodion pwysau ac ati. Roedd pob dogfen waith yn cynnwys llofnodion y staff yn ôl y gofyn.

Roedd pob ffeil yn dal rhestr o rifau cyswllt proffesiynol, e.e. meddyg teulu, arbenigwr esgidiau, deintydd, seicolegydd ac ati, a gwelwyd tystiolaeth bod llawer o ymweliadau, apwyntiadau ac atgyfeiriadau yn cael eu trefnu.

Roedd Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng ar gael i'w weld yn y ffeiliau ac mae ymarferion tân yn cael eu cynnal bob mis fel mater o arfer da.

Maeth

Caiff pob preswlydd ei helpu i fynd i siopa yn ôl yr angen a bydd y staff yn annog deiet iach ond gall pob preswlydd ddewis yr hyn mae am ei fwyta bob dydd.

Mae pob preswlydd yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi bwyd ac mae'r staff yn rhoi cymorth gweithredol i helpu preswylwyr i baratoi prydau bwyd a diodydd ac ati, a gwelwyd hyn yn ystod yr ymweliadau.

Yr Amgylchedd

Mae digonedd o le ac mae pob rhan o'r cartref yn daclus iawn yr olwg, gydag awyrgylch tawel a hamddenol. Roedd pob ystafell wely wedi'i phersonoli a'i haddurno'n unigol gyda dewis eitemau a ffotograffau'n cael eu harddangos ym mhob ystafell. Roedd y tiroedd o amgylch y tŷ yn lân ac yn daclus.

Cwestiynau i'r Staff

Roedd yr aelod o'r staff yn gwybod ble roedd ffeiliau'r preswylwyr, ynghyd â chynlluniau gofal a chymorth, cynlluniau personol ac asesiadau

risg, yn cael eu cadw a dywedodd y gall edrych arnynt ar unrhyw adeg. Dywedodd yr aelod o'r staff hefyd fod unrhyw ddiweddiadau i ddogfennau yn cael eu nodi yn y llyfr cyfathrebu ac mae'n rhaid i'r staff lofnodi taflen lofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen y cynnwys, a'i ddeall.

Roedd yr aelod o'r staff yn canmol rheolwr y tŷ a dywedodd ei bod yn rheoli ei hamser yn dda iawn ac yn ymgysylltu'n dda â'r preswylwyr a'r staff. Ychwanegodd yr aelod o'r staff ei bod yn rheolwr da sy'n hawdd mynd ati, ac yn gefnogol ac yn deg.

Roedd yr aelod o'r staff yn gwbl ymwybodol o'r cynllunwyr gweithgareddau a oedd ar waith ar gyfer pob preswilydd a soniodd hefyd am y gweithgareddau mewnol sy'n cael eu cynnal, e.e. celf a chreffft, coginio a sesiynau maldodi. Dywedodd yr aelod o'r staff hefyd y bydd pob aelod o'r staff yn cymryd eu camau eu hunain i nodi digwyddiadau/gweithgareddau yn lleol a helpu preswylwyr i gymryd rhan ynddynt, e.e. Traeth Coed Duon.

Roedd yn amlwg bod yr aelod o'r staff yn ymwybodol o'r holl breswylwyr a'u hanghenion a'r hyn sy'n bwysig ei wybod amdanynt. Dywedodd fod pob un o'r preswylwyr yn cyfathrebu'n ddieiriau a dywedodd ei bod yn defnyddio arwyddion ac yn cyfeirio at wrthrychau er mwyn cyfathrebu â phob preswilydd.

Dywedodd yr aelod o'r staff fod cyfarfodydd tîm a sesiynau goruchwyllo'n cael eu cynnal yn rheolaidd lle trafodir y ffordd y caiff y cartref ei redeg yn gyffredinol a lle y caiff pob aelod o'r staff ei annog i gyfrannu a chynnig awgrymiadau ar gyfer gwelliannau.

Soniodd yr aelod o'r staff am gronfa ddata hyfforddiant CMB, gan nodi ei bod yn gobeithio datblygu ei gyrfa o fewn y cwmni a'i bod yn gallu enwebu ei hun am unrhyw hyfforddiant sy'n angenrheidiol yn ei barn hi.

Recriwtio, Hyfforddi a Sefydlu

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl waith papur angenrheidiol ac yn dangos bod proses recriwtio gadarn wedi cael ei chynnal gyda'r holl wybodaeth angenrheidiol, megis ffurflen gais, dau eirida, disgrifiad swydd, manylion adnabod â llun, gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, contract cyflogaeth, tystysgrifau hyfforddiant ac ati ar gael i'w

gweld yn y ffeiliau.

Ar hyn o bryd mae CMB yn rhoi hyfforddiant sefydlu mewnol i bob aelod o'r staff ac roedd yn gadarnhaol gweld yr aelod diweddaraf o'r staff yn cael ei gefnogi drwy'r broses.

Mae CMG yn cynnig cyrsiau hyfforddi gorfodol a rhai nad ydynt yn orfodol ac mae'r rhain yn cynnwys e-ddysgu a sesiynau wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth. Mae CMB yn darparu'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn fewnol ond bydd yn defnyddio cwmnïau allanol ar gyfer cyrsiau megis cymorth cyntaf. Edrychwyd ar y matrices hyfforddiant a dangosodd hwn fod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r holl ofynion hyfforddiant gorfodol ac yn cael ei gefnogi i ymgymryd â hyfforddiant sydd o ddiddordeb.

Defnyddir system electronig i gofnodi a storio gwybodaeth am yr holl hyfforddiant a gyflawnwyd, o'r enw 'fulfilling potential'. Mae'r aelodau o'r staff yn gyfrifol am sicrhau bod eu hyfforddiant yn gyfredol a gallant fynd i'r safle i wneud cais am unrhyw hyfforddiant sydd o ddiddordeb.

Gwelwyd bod dyddiadau goruchwyllo'r staff yn rheolaidd ac yn gyson.

Cwynion a Chanmoliaeth

Nid yw Glencourt wedi cael unrhyw gwynion ers sawl blwyddyn.

Sicrhau Ansawdd

Mae'r Adolygiad Blynyddol o Ansawdd ar gyfer 2018 yn darparu data a gasglwyd o ymatebion i holiaduron i'r staff, preswylwyr a rhanddeiliaid ac roedd hwn hefyd yn cynnwys arfer eithriadol.

Mae CMB yn cynnal archwiliad mewnol o ansawdd ar bob eiddo o leiaf deirgwaith yn ystod y flwyddyn.

4 Camau Unioni/Datblygiadol

4.1 Camau Unioni

Dim

4.2 Camau Datblygiadol

Sicrhau bod cytundebau yn cael eu llunio ar gyfer tynnu a rhannu ffotograffau o'r preswylwyr a chael llofnodion i awdurdodi'r defnydd

ohonynt.

5 **Casgliad**

Roedd yr ymweliadau yn gadarnhaol gydag awyrgylch cynnes, croesawgar a hamddenol yn cael ei gydnabod ar bob achlysur a gwelwyd arferion da drwy gydol yr ymweliadau. Roedd pob aelod o'r staff yn dangos rhyngweithio da â'r preswylwyr ac roeddent yn gymwynasgar ac yn gefnogol.

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i unigolion a/neu eu teuluoedd os gofynnant am gael ei weld.